

RHONDDA CYNON TAF
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cynghorydd Richard Yeo isod ynglŷn â'i weithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben Mai 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cynghorydd Richard Yeo

Ardal etholiadol: Y Beddau

Plaid/Grŵp Gwleidyddol: Llafur

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Pwyllgor Iechyd a Lles (Cadeirydd)
Aelod o'r Pwyllgor cydlynu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
Aelod o'r Cyngor Llawn
Aelod o'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad
Aelod o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Adran 2: Gweithgaredd yn yr Etholaeth

Cynrychioli ward Y Beddau a chynorthwyo'r trigolion lleol yw fy mhrif nod erioed fel cynghorydd. Rydw i'n gweithio'n agos gyda fy nghydweithiwr yn y ward arall yn ein pentref i gyflawni dyheadau a buddiannau'r gymuned. Rydw i'n atebol i drigolion lleol ac yn rhoi cymorth a chefnogaeth iddyn nhw gyda phroblemau maen nhw'n dwyn i'm sylw. Rydw i'n cysylltu'n barhaus ag Adrannau a Swyddogion y Cyngor ar ran trigolion mewn perthynas ag amrywiaeth o broblemau er mwyn cefnogi trigolion i'w datrys. Rydw i hefyd yn cyflwyno ac yn llywio cynigion i wella'r gymuned. Rydw i'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn adrodd ar fusnes a gweithgareddau'r Cyngor.

Rydw i'n cysylltu'n rheolaidd â'r Heddlu ac yn mynychu'r cyfarfod Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd lleol. Mae hyn yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n effeithio ar y gymuned leol. Rydw i hefyd yn gweithio gydag ystod eang o grwpiau cymunedol a rhoi cymorth iddyn nhw gyflawni eu hamcanion.

Rydw i'n cynnal cymorthfeydd cyngor rheolaidd gyda fy nghydweithiwr ward ac rydw i hefyd yn cynnal cymorthfeydd yn y stryd.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Trwy ymgyrchu gyda'm cydweithiwr lleol a chynghorwyr cymuned lleol, roedd modd i mi flaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer cyffordd 'Beddau Halt' i'w gwneud yn fwy diogel. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. Trwy ymgyrchu lleol a chyfarfodydd gyda'r arweinydd, Andrew Morgan, roedd modd i mi dderbyn cyllid ar gyfer maes chwarae 3G newydd yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, a bydd hyn yn cael ei adeiladu'n fuan. Unwaith eto, trwy weithio gyda'r Arweinydd a charfan Priffyrdd, rydw i wedi llwyddo i wneud gwaith atgyweirio i'r priffyrdd a'r palmentydd yn fy ward. Drwy weithio gyda swyddogion sy'n gweithio ym maes datblygu a rheoli, roedd modd i mi gael arian gan ddatblygwr i adnewyddu ac adennill perchnogaeth o'r unig ardal chwarae i blant yn fy ward. Rydw i wedi cynnal cyfarfod gyda fy Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad Lleol ac Arweinydd y Cyngor, Andrew Morgan, a Swyddogion Priffyrdd mewn perthynas â chreu achos dros gynnwys Tynant, Llanilltud Faerdref a Llantrisant yn y cynnig ar gyfer Rhan 1 o'r system rheilffordd ysgafn Metro.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Rydw i bob amser yn mynychu unrhyw hyfforddiant y bydd y Cyngor yn ei gynnig i mi i'm cynorthwyo yn fy rôl fel Cynghorydd. Rydw i'n teimlo ei fod yn angenrheidiol i gynorthwyo Aelodau i gyflawni eu rôl a'u dyletswyddau yn briodol.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Rydw i'n llywodraethwr gweithgar o gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Llwyn-crwn yn fy ward. Rydw i bob amser ar gael i roi cymorth ac arweiniad i'r rhai rydw i'n eu gwasanaethu yn y Ward. Rydw i'n gwneud fy ngorau dros y gymuned rydw i'n ei gwasanaethu gydag agwedd di-ildio.